ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

20fed o Fedi, 2022

Taith Theatr 'The Book Thief'
Theatr Octagon, Bolton
Dydd Sadwrn, 1af Hydref, 2022

Annwyl Rhiant/ Gwarcheidwad,

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu am gyfle gwych i'ch plentyn fod yn rhan o daith yr adran Saesneg i Theatr Octagon yn Bolton **ar ddydd Sadwrn, 1af o Hydref**. Mae hyn yn gyfle gwych i weld premiere o'r addasiad o'r nofel enwog gan Markus Zusak (llyfr rydym yn astudio gyda disgyblion blwyddyn 8). Gweler mwy o fanylion fan hyn: https://octagonbolton.co.uk/whats-on/theatre/the-book-thief-1/

Bydd cludiant i'r theatr ac yn ôl i'r ysgol yn cael ei drefnu, ond bydd angen i ddisgyblion gyrraedd Bryn Tawe erbyn 6:30yb er mwyn cyrraedd mewn da bryd. Mawr obeithiwn ddychwelyd i Fryn Tawe erbyn rhyw 10:30yh (ond byddwn yn cadarnhau'r amser dychwelyd yn ystod y dydd). Ni fydd angen gwisgo gwisg ysgol, ond anogwn ddisgyblion i wisgo'n addas. Yn ystod yr ymweliad, bydd gan y disgyblion cyfle i fynd i siopa cyn y perfformiad yng nghanol y ddinas a chael cinio.

Gofynnwn yn garedig am **gyfraniad o £50** er mwyn cynnal costau trafnidiaeth a thocyn ar gyfer y sioe. Byddwn yn galw yn y gwasanaethau yn ystod y siwrne i Bolton ac wrth ddychwelyd, ond mae yna groeso i ddisgyblion ddod a phecynnau bwyd gyda nhw. Byddai'n synhwyrol cael peth arian i'w wario ar gyfer cinio.

A fyddech cystal â llenwi'r ffurflen feddygol a'i dychwelyd, ynghyd â'r arian (neu siec yn daladwy i Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe) cyn gynted ag y bo modd?

Diolch am eich cydweithrediad a chysylltwch os oes gennych unrhyw gwestiynau,

Mr Chris Shaw (Pennaeth Cynorthwyol a Phennaeth yr Adran Saesneg)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
swyddfabryntawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales